

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational
Needs Tribunal for Wales

Annual Report 2005-2006



Rhagfyr 2006

Mae copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael oddi wrth:

TAAAC,

Uned 32,

Parc Menter Ddole Road,

Llandrindod Wells, Powys, LD1 6PF.

Ffôn: 01597 829800

Ffacs: 01597 829801

e-bost: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk

Tribiwnlys Anghenion
Addysgol Arbennig Cymru



Special Educational
Needs Tribunal for Wales

At: Ms Jane Davidson AC
Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhagfyr 2006

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy nhrydydd Adroddiad Blynyddol fel Llywydd Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae'r adroddiad yn manylu ar weithgareddau'r Tribiwnlys am y flwyddyn 1 Medi 2005 i 31 Awst 2006.

Rhiannon Ellis Walker
Llywydd, TAAAC

Uned 32, Parc Menter Ddole Road, Llandrindod, Powys, LD1 6PF
Unit 32, Ddole Road Enterprise Park, Llandrindod Wells, Powys, LD1 6PF
Linell Gymorth | Helpline: 01597 829800
Gweinyddu Cyffredinol | General Administration: 01597 829802
Ffacs | Fax: 01597 829801 • E-bost | E-mail: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk

Cynnwys

Rhagair y Llywydd	1
Nifer o Apeliadau AAA	5
Y rhaniad rhwng Bechgyn/Genethod o ran Apeliadau AAA	6
Cyflymder y Cwblhau	7
Nifer yr Apeliadau fesul AALI	9
Canlyniadau Apeliadau - fesul AALI	10
Mathau o Apêl	11
Natur AAA	12
Canlyniad yr Apeliadau - Cyffredinol	15
Canlyniad yr Apeliadau - yn ôl Ysgol	16
Canlyniad yr Apeliadau - yn ôl Natur yr AAA	17
Monitro Ethnig	17
Hawliadau ar Sail Anffafrio oherwydd Anabledd	18
Apeliadau i'r Uchel Lys	18
Cwynion	18
Ysgrifenyddiaeth	18
Gwariant	19
Aelodaeth y Tribiwnlys	20

Rhagair y Llywydd

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymwneud â thrydedd blwyddyn bodolaeth y Tribiwnlys ac yn rhoi manylion am nifer, math a chanlyniadau'r apeliadau AAA a hawliadau o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a wnaed yn ystod y cyfnod 1 Medi 2005 i 31 Awst 2006.

Mewn llawer o ffyrdd mae'r cyfnod cyflwyno adroddiadau diwethaf wedi bod y prysuraf ers y sefydlwyd y Tribiwnlys. Yn ychwanegol at weld cynnydd yn nifer yr apeliadau AAA, rydym wedi cael apeliadau mwy cymhleth. Efallai mai'r rheswm am hyn yn rhannol yw'r symudiad parhaus i ffwrdd oddi wrth apeliadau sy'n ymwneud ag asesiadau a phenderfyniadau dechreuol ynghylch gwneud datganiadau o AAA neu beidio. Mae hyn ynddo'i hun wedi creu sialensau newydd, ond mae hefyd wedi tynnu sylw at rai datblygiadau a thueddiadau diddorol a gwerth eu nodi, y byddaf yn rhoi sylwadau amdanynt yn nes ymlaen.

Apeliadau AAA

Niferoedd Cynyddol

Unwaith eto rwy'n adrodd ynghylch cynnydd blynyddol yn nifer yr apeliadau sy'n cael eu cofrestru yn erbyn penderfyniadau gan AALI Cymru. Y ffigurau ar gyfer apeliadau cofrestredig dros y tair blynedd ddiwethaf, yn dechrau o 2003-2004 yw: 117, 127 ac yn awr 150.

Ond nid yw'r cynnydd yn nifer yr apeliadau er hynny yn gyson ar draws Cymru: ni chafodd 2 AALI unrhyw apeliadau wedi eu cofrestru o gwbl a gwelodd 8 arall gofrestriadau yn gostwng. Cynhyrnodd 5 AALI arall 5 apêl ychwanegol rhyngddynt: llai na chwarter y cynnydd cenedlaethol. Mae'r patrwm ystadegol ar gyfer Cymru gyfan wedi ei effeithio rywfaint gan y cynnydd cymharol arwyddocaol ac mewn rhai enghreifftiau anghyfartal mewn llond llaw o awdurdodau lleol.

Beth bynnag fo'r rheswm, ac mae rhywun yn ymwybodol o ystod o ffactorau a all ddylanwadu ar niferoedd apeliadau, bydd rhai AALI yn dymuno archwilio pam fod mwy o rieni yn teimlo bod yn rhaid herio penderfyniadau drwy'r system Tribiwnlys. Yn ogystal â phroblemau ynglŷn â'r berthynas rhyngddynt, mae'n rhaid bod goblygiadau mawr o ran adnoddau i rai o'r AALI o dan sylw. Wrth gwrs, mae'n fuddiol iawn iddyn nhw eu hunain archwilio pam fod y niferoedd mor uchel ac ystyried pa gamau y gellir eu cymryd i atal cynnydd mewn apeliadau, neu o leiaf, ddatrys anghydfod yn llawer cynharach yn y broses.

Cyfryngdod

Rwy'n dal i deimlo y gall cyfryngdod, neu ddatrys anghydfod, fod â rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith anffurfiol ac amserol o gymodi. Wrth gwrs, mae effeithiolrwydd y system yn dibynnu llawer iawn ar ymrwymiad gwirioneddol i'r broses. Mae nifer yr apeliadau sydd wedi eu tynnu'n ôl gan rieni neu eu hildio gan AauALL yn gwneud cyfanswm o ryw 60% o'r holl apeliadau gweithredol. Mae llawer o'r penderfyniadau hyn yn dod yn hwyr, neu yn hwyr iawn yn y broses apêl a gallant fod â chanlyniadau drud i'r Tribiwnlys a'i ddefnyddwyr. Yr un mor niweidiol efallai yw'r syniad o 'ddibynfentro' ('brinkmanship') a'r effaith a gaiff hyn ar berthynas rhwng rhieni ac Awdurdodau yn y dyfodol.

Dirprwyo Cyfrifoldeb

Rwyf wedi bod yn bryderus wrth glywed am duedd ymddangosiadol mewn rhai ardaloedd i ddirprwyo cyfrifoldeb i ysgolion am nodi a mesur darpariaeth. Rwy'n ymwybodol o'r arfer sydd bellach yn gyffredin o ddirprwyo cyllid i ysgolion. Fy nehongliad i o'r gyfraith yw fod cyfrifoldeb am adnabod, nodi a mesur darpariaeth mewn datganiadau y tybir sy'n angenrheidiol i fodloni anghenion plant yn nwylo'r AauALL. Ar hyn o bryd rydym yn gweld datganiadau lle mae'r AALL wedi nodi bod cyllid wedi ei ddirprwyo i ysgolion ac y bydd yr ysgolion hynny yn nodi'r ddarpariaeth a roddir. Yn yr amgylchiadau hynny bydd llawer o rieni yn apelio yn erbyn y datganiad ar y sail nad yw'r ddarpariaeth wedi ei nodi ac/nac wedi ei mesur.

Byddwn yn croesawu eglurhad i'r AauALL o safiad Llywodraeth y Cynulliad.

Gwaredu Mwy o Achosion Byw

Er gwaethaf nifer uchel o apeliadau a gofrestrwyd, rydym wedi gweld gostyngiad yn nifer yr achosion byw sy'n dal ar y llyfrau. Y llynedd bu i ni ddwyn ymlaen dros 56 o apeliadau, ac mae'r nifer sy'n mynd ymlaen wedi gostwng i 34. Yn ychwanegol at gynnydd bach yn nifer yr achosion a dynnwyd yn ôl a'r apeliadau a ildiwyd, rydym wedi cynyddu nifer yr apeliadau a benderfynwyd yn dilyn gwrandawriad o 31 i 48. Rwy'n ddiolchgar i'm haelodau ac i'r ysgrifenyddiaeth am wneud hyn yn bosibl.

Hawliadau Anabledd

Roedd 7 hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd yn ystod y llynedd. O blith y rhain cafodd 5 eu tynnu'n ôl ac ni chafodd 1 ei gofrestru. Aeth yr hawliad oedd ar ôl ymlaen i wrandawriad ac fe'i penderfynwyd o blaid y rhieni. Mae hawliadau anabledd yn parhau i gynrychioli cyfran fechan iawn o'n gwaith; yn yr ychydig

o hawliadau sy'n mynd ymlaen un o'r nodweddion cyffredin yw ansicrwydd ymddangosiadol gan gyrrff cyfrifol am eu dyletswyddau.

Nodaf nad yw'r Comisiwn Hawliau Anabledd yn cynnig gwasanaeth cyfryngu mewn perthynas â hawliadau o'r fath a byddwn yn croesawu camau gweithredu i lenwi'r gwacter ymddangosiadol hwn.

Edrych Ymlaen

Apeliadau Plant

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i weithio gyda budd-ddeiliaid Tribiwnlysoedd a Llywodraeth y Cynulliad i ddarganfod ffordd o sicrhau y gall lleisiau plant gael eu clywed yn y broses apêl. Byddwn yn edrych ymlaen at ddogfen ymgynghori'r Llywodraeth a fydd yn ymdrin ag argymhelliad y Comisiynydd Plant y dylai plant fod â hawl i wneud apeliadau yn eu henwau eu hunain.

Bydd gennyf ddiddordeb mewn gweld canllawiau'r Cynulliad hefyd ynghylch eiriolaeth plant ac mewn datblygu trefniadau cyson ar draws y maes.

Arolygu Llenyddiaeth

Ar hyn o bryd rydym wrthi yn diwygio ein llenyddiaeth apeliadau i rieni. Gobeithiaf y bydd y canlyniad yn gynnyrch sy'n gliriach ac sy'n adlewyrchu'n well y newidiadau yr ydym wedi eu gwneud ers cymryd cyfrifoldebau am apeliadau AAA.

Anelwn at ail-lansio'r canllawiau mewn pryd ar gyfer dechrau blwyddyn Tribiwnlys 2007-2008.

Gwasanaeth Tribiwnlys Apeliadau

Rydym yn parhau i wyllo datblygiadau yn Lloegr ac esblygiad y Gwasanaeth Tribiwnlys Apeliadau gyda diddordeb. Mae llawer o waith diddrol yn cael ei wneud ar hyn o bryd hefyd mewn rhannau o'r gymuned tribiwnlysoedd sy'n canolbwyntio ar ddatrys anghydfod yn gymesur ac ynghych gwerthuso apeliadau yn niwtral yn gynnar. Rwy'n falch o fod yn bennaeth tribiwnlys sydd wedi ei ddatganoli, ond byddwn yn parhau i ystyried profiadau mewn mannau eraill ar draws y Deyrnas Unedig (a thu hwnt) i weld a allant, ac i ba raddau, roi gwybodaeth ar gyfer ac effeithio ar sut y datblygwn ein gwasanaeth ein hunain i bobl Cymru.

Mae llawer o waith diddorol yn cael ei wneud ar hyn o bryd mewn rhannau o gymuned y tribiwnlysoedd sy'n canolbwyntio ar ddatrys anghydfod yn gymesur ac ar werthuso apeliadau niwtral yn gynnar.

Fel y gellid disgwyl, mae Tribiwnlys AAA Cymru bellach yn greadur mwy sefydledig ac aeddfed. Rydym wedi ceisio dysgu oddi wrth ein profiadau ffurfiannol ac wedi mireinio ein prosesau a'n gweithrediadau yn unol â hynny. Dros y flwyddyn sy'n dod byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n defnyddwyr a chyda'n chwaer weinyddiaethau mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.


Mae'n parhau i fod yn ffrainc fawr i fod yn Llywydd ar aelodaeth ac ysgrifenyddiaeth mor ymroddedig ac sy'n gweithio mor galed, ac yn eu cwmni, edrychaf ymlaen at wynebu sialensau'r flwyddyn sydd i ddod.

Nifer yr Apeliadau AAA

Yn ystod y flwyddyn, o 1 Medi 2005 i 31 Awst 2006, derbyniodd Tribiwnlys AAA Cymru **157** o apeliadau am benderfyniadau AAA. Yn ystod y flwyddyn, cofrestrwyd **150** gyda'r gweddill naill ai'n cael eu dwyn ymlaen i'r cyfnod adrodd nesaf neu'n cael eu gwrthod neu eu tynnu'n ôl cyn eu cofrestru.

Mae tuedd glir tuag i fyny yn nhermau'r apeliadau a gofrestrwyd dros y tair blynedd o Fedi 2003.


Apeliadau AAA a gofrestrwyd fesul blwyddyn Dribiwnlys



Apeliadau AAA - y rhaniad bechgyn:genethod

Yn ystod y flwyddyn, cofrestrwyd 111 o apeliadau AAA yn ymwneud â bechgyn; y ffigur cyfatebol ar gyfer merched oedd 39. Mae'r ffigurau ar gyfer bechgyn wedi gostwng i 74% o'r holl apeliadau sy'n ymwneud â bechgyn, yn erbyn 77% yn y cyfnod adrodd blaenorol. Yn y flwyddyn gyntaf o weithrediadau TAAAC, roedd 72.6% o apeliadau yn gysylltiedig ag AAA bechgyn.

Rhaniad Bechgyn a Genethod



Cyflymder Cwblhau'r Gwrandawriad

Mae'r adran hon yn ymdrin â pha mor hir, yn nhermau dyddiau gwaith¹, a gymerodd rhwng i apêl gael ei chofrestru ac i benderfyniad gael ei gyhoeddi.

Mae nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i gwblhau apeliadau wedi codi i 96.7 o gyfartaledd o 95 yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r Tribiwnlys yn dal yn gorfod gohirio gwrandawriadau oherwydd nad oes tystion ar gael ac oherwydd bod tystiolaeth annigonol wedi ei chyflwyno.

Nifer y penderfyniadau a gyhoeddwyd	48
Nifer cyfartalog o ddyddiau gwaith	96.7

Roedd nifer cyfartalog y dyddiau i benderfyniad gael ei gyhoeddi yn parhau ar ychydig o dan 9.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r dull y cwblhawyd 193 o apeliadau, a'r nifer oedd yn disgwyl penderfyniad, a fydd yn cael eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn Tribiwnlys nesaf. Bu cynnydd sylweddol yn nifer y penderfyniadau (o 31 i 48) a chynnydd arall yn nifer yr apeliadau sydd naill ai'n cael eu tynnu'n ôl gan rieni neu eu hildio gan AauALL (sydd yn 59% ar hyn o bryd o'i gymharu ag ychydig o dan 54% yn y flwyddyn flaenorol a 50.4% yn 03/04). Byddwn yn parhau i fonitro nifer yr apeliadau naill ai sy'n cael eu tynnu'n ôl neu eu hildio yn ddiweddar yn y broses a'r effaith a gaiff hyn ar wariant.

Mae canran yr apeliadau a gofrestrwyd ond sy'n disgwyl am wrandawriad, 16.06%, yn dangos gostyngiad pellach yn erbyn blynyddoedd blaenorol: 26.54% yn 04/05 a 27.4% yn 2003/04. Er gwaetha'r cynnydd yn nifer cyffredinol yr apeliadau a gofrestrwyd, ar bob pwynt chwarter blwyddyn yn 2005/06 roedd y Tribiwnlys wedi cwblhau mwy o apeliadau nag a oedd wedi eu cofrestru yn ystod y chwarteri.

Ar ddiwedd y cyfnod adrodd hwn roedd 1 apêl ar ôl o flwyddyn Tribiwnlys 2004/05. Mae hyn wedi bod yn ganlyniad newidiadau technegol i'r hysbysiad o apêl a datblygiadau dilynol.

¹ Yn unol â rheoliadau'r Tribiwnlys nid yw'r canlynol yn cael eu cynnwys fel dyddiau gwaith: dydd Sadwrn a dydd Sul, unrhyw ddiwrnod ym mis Awst, unrhyw ddiwrnod o 25 Rhagfyr i 1 Ionawr yn gynhwysol, a gwyliau banc.

05-06	Gwir	Canran	04-05	Gwir	Canran
Penderfynwyd	48	24.87	Penderfynwyd	31	19.14
Tynnwyd yn ôl	79	40.93	Tynnwyd yn ôl	45	27.78
Ildiwyd	35	18.13	Ildiwyd	42	25.93
Taflwyd allan	0	0.00	Taflwyd allan	1	0.62
Yn disgwyl penderfyniad	31	16.06	Yn disgwyl penderfyniad	43	26.54
Cyfanswm	193	100.00	Cyfanswm	162	100.00

Apeliadau fesul AALI

Mae'r tabl hwn yn nodi nifer yr apeliadau a gofrestrwyd fesul AALI yn ystod blwyddyn Tribiwnlys 05/06.

	05/06	(Fesul 10,000 o boblogaeth ysgol)	04/05	03/04
Blaenau Gwent	4	3.51	3	0
Pen-y-bont ar Ogwr	2	0.86	2	2
Caerffili	3	0.98	1	3
Caerdydd	37	7.01	33	35
Caerfyrddin	5	1.76	6	5
Ceredigion	2	1.93	2	1
Conwy	1	0.55	4	8
Dinbych	2	1.17	6	0
Fflint	0	0.00	2	3
Gwynedd	2	1.07	3	3
Merthyr Tudful	1	1.00	2	0
Mynwy	11	7.62	8	5
Castell Nedd a Phort Talbot	14	6.32	7	6
Casnewydd	45	17.64	30	15
Sir Benfro	0	0.00	2	0
Powys	5	2.44	3	7
Rhondda Cynon Taf	3	0.72	2	4
Abertawe	7	1.91	5	7
Torfaen	1	0.60	4	3
Bro Morgannwg	1	0.45	0	8
Wrecsam	2	1.05	1	2
Ynys Môn	2	1.95	1	0


Canlyniadau fesul AALI

Mae'r tabl hwn yn dangos canlyniadau yn 2005/06 fesul AALI. Mae'r ffigurau yn cynnwys apeliadau cofrestredig a ddygwyd ymlaen o 2004/05 ond a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Lle nad yw apêl wedi ei chadarnhau cofnodwyd hon fel 'un a wrthodwyd'.

AALI	Ildiwyd gan AALI	Tynnwyd yn ôl gan y rhieni	Cadarnhawyd yn rhannol neu yn llawn	Gwrthodwyd neu fe'i taflwyd allan yn y gwrandawriad	Yn disgwyl penderfyniad
Blaenau Gwent			2		2
Bridgend		2			
Caerphilly		1	1		1
Cardiff	6	16	12	1	12
Carmarthenshire	3	3	4	1	
Ceredigion	1	2			
Conwy		1	1		1
Denbighshire				2	1
Flintshire				1	
Gwynedd	1	1	1		
Merthyr Tydfil		1	1		
Monmouthshire	4	8	2		
Neath Port Talbot	3	10	1		3
Newport	12	26	9	1	6
Pembrokeshire					
Powys	2	1			2
Rhondda Cynon Taff			4		
Swansea	2	3	3	1	1
Torfaen	1				1
Vale of Glamorgan		1			
Wrexham		1			1
Ynys Mon		2			

Math o Apêl

Math o Apêl



- Gwrthodiad i Aseu
- Gwrthodiad i wneud Datganiad
- Gwrthodiad i Ail-Aseu
- Yn erbyn penderfyniad i bedio a pharhau a'r Datganiad
- Cynnwys Rhannau 2 a 3
- Cynnwys Rhannau 2, 3 a 4
- Cynnwys Rhan 3
- Cynnwys Rhan 4
- Cynnwys Rhannau 3 a 4

Math o Apêl ²	% o Gyfanswm yr Apeliadau 2005/06	% o Apeliadau 2004/05	% o Apeliadau 2003/04
	Cyfanswm yr Apeliadau 150	Cyfanswm yr Apeliadau 127	Cyfanswm yr Apeliadau 117
Gwrthodiad i Asesu	23.3	25.2	39.3
Gwrthodiad i wneud Datganiad	7.3	11.0	12.0
Gwrthodiad i Ail-Asesu	1.3	1.6	1.7
Yn erbyn penderfyniad i beidio â pharhau â'r Datganiad	3.3	2.4	1.7
Cynnwys Rhannau 2 a 3	21.3	15.7	18.0
Cynnwys Rhannau 2, 3 a 4	23.3	26.8	11.1
Cynnwys Rhan 3	10.0	9.4	6.8
Cynnwys Rhan 4	4.7	5.5	5.1
Cynnwys Rhannau 3 a 4	5.3	2.4	4.3


Rydym wedi gweld gostyngiad sylweddol o flwyddyn i flwyddyn yn nifer yr apeliadau yn erbyn gwrthodiadau AauALL i asesu AAA plant a gwrthodiad i wneud datganiadau. Mae apeliadau sy'n ymwneud â materion heblaw cynnwys datganiadau bellach yn ffurfio 35% o'r holl apeliadau; yn 03/04 roedd yr un mathau o apêl yn cyfrif am oddeutu 55% o'n llwyth gwaith.

Apêl yn ôl Natur yr Angen Addysgol Arbennig

Mae'r wybodaeth isod yn rhestru apeliadau yn ôl natur yr AAA. Unwaith eto rydym wedi cofnodi anghenion y cyfeiriwyd atynt gan rieni a/neu'r AALL adeg cyflwyno'r apêl. Fel y gellid disgwyl, mae apeliadau ynglŷn ag Anhwylder yn y Sbectwm Awtistig ac Anawsterau Dysgu Penodol yn cyfrif am dros hanner yr holl apeliadau cofrestredig.

² Canran i 1 lle degol

Math o AAA



- Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig
- Anaswterau Emosiynol ac Ymddygiadol
- Nam ar y Clyw
- Anawsterau Dysgu Penodol (gan gynnwys Llythrennedd/Dyspracia)
- Anawsterau Dysgu Cymedrol
- Anawsterau Dysgu Corfforol/Meddygol
- Anawsterau Dysgu Difrifol a Lluosog
- Anawsterau Dysgu Difrifol
- Anawsterau Lleferydd ac Iaith
- Narn ar y Golwg
- AAA Lluosog
- Arall/Anhysbys

Math o AAA	% o Gyfanswm yr Apeliadau 2005/06	% o Apeliadau 2004/05	% o Apeliadau 2003/04
Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistig	22.0	29.6	22.2
Anawsterau Emosiynol ac Ymddygiadol	10.7	8.8	6.8
Nam ar y Clyw	5.3	0.8	3.4
Anawsterau Dysgu Penodol (gan gynnwys Llythrennedd/ Dyspracsia)	19.3	22.4	33.3
Anawsterau Dysgu Cymedrol	2.0	4	0.9
Anawsterau Corfforol/ Meddygol	9.3	0	0
Anawsterau Dysgu Difrifol a Lluosog	5.3	0	0
Anawsterau Dysgu Difrifol	4.0	2.4	4.3
Anawsterau Lleferydd ac Iaith	9.3	9.6	9.65.1
Nam ar y Golwg	0.0	0	0
AAA Lluosog	12.7	16	15.4
Arall/Anhysbys	0.0	6.4	1.7

Canlyniad yr Apeliadau: Cyffredinol

Fel a ddigwyddodd yn ystod cyfnodau adrodd blaenorol, cafodd dros 80%, yn yr achos hwn 83% o'r holl apeliadau a aeth ymlaen i wrandawriad llawn (h.y. nad oeddent yn destun gorchymyn i'w dileu) eu cefnogi naill ai'n llawn neu yn rhannol. O'r 48 o apeliadau a aeth i wrandawriad llawn, cafodd 7 eu gwrthod.

Math o Apêl	Penderfyniadau a Gyhoeddwyd 05/06			Penderfyniadau a Gyhoeddwyd 04/05		
	Cefnog- wyd	Gwrthod- wyd	Dilëwyd	Cefnog- wyd	Gwrthod- wyd	Dilëwyd
Gwrthodiad i Asesu	1	3			1	
Gwrthodiad i wneud Datganiad	2	1		1		
Gwrthodiad i Ail-Asesu						
Yn erbyn penderfyniad i beidio â pharhau â Datganiad	2				1	
Yn erbyn cynnwys Rhannau 2 a 3	14			11		
Yn erbyn cynnwys Rhannau 2, 3 a 4	19	2		10		1
Yn erbyn cynnwys Rhan 3	2	1		1	2	
Yn erbyn cynnwys Rhan 4				2	1	
Yn erbyn cynnwys Rhannau 3 a 4	1			1		
Cyfansymiau	41	7	0	26	5	1

Canlyniadau'r Apeliadau: Ysgolion

Gwrandawyd 22 o apeliadau a geisiodd newid penderfyniadau yn ymwneud â'r ysgol a enwyd yn rhan 4 datganiad plentyn. Y ffigyrau cyfatebol ar gyfer 04/05 a 03/04 oedd 15 ac 8 yn y drefn honno. O'r 22 o apeliadau, cafodd 2 eu gwrthod, ac ni orchmynnwyd diwygiadau rhan 4 mewn 5 achos.

	Cefnogwyd newid Rhan 4 y Datganiad	Cefnogwyd newid Rhannau 3 a 4 y Datganiad	Cefnogwyd newid Rhannau 2, 3 a 4 y Datganiad
Ysgol Prif Ffrwd a Gynhelir			5
Ysgol Arbennig Annibynnol wedi ei Chymeradwyo			5
Ysgol Arbennig a Gynhelir			4
Addysg Gartref			0
Addysg ar y Cyd gan yr Ysgol a'r Cartref			1

Canlyniad Apeliadau yn ôl natur yr AAA

Apeliadau yn ôl Math	Penderfyniadau a gafodd eu cyhoeddi 05/06		
	Cefnogwyd	Gwrthodwyd	Dilëwyd
Anhwyllder yn y Sbectrwm Awtistig	15		
Anawsterau Ymddygiad ac Emosiwn	1		
Nam ar y Clyw	1		
Anawsterau Dysgu Penodol (gan gynnwys Llythrennedd/Dyspracsia)	6	3	
Anawsterau Dysgu Cymedrol		1	
Anawsterau Corfforol/Meddygol	3	1	
Anawsterau Dysgu Difrifol a Lluosog	3		
Anawsterau Dysgu Difrifol	3		
Anawsterau Lleferydd ac Iaith	1	2	
Nam ar y Golwg			
AAA Lluosog	8		
Arall/Anhysbys			
Cyfanswm	41	7	0

Monitro Ethnig

Gwahoddir rheini i lenwi datganiad monitro ethnig sy'n cyd-fynd â'r hysbysiad o apêl.

	2005/06	2004/05	2003/04
Bangladeshi	0	1	1
Affricanaidd Croenddu	4	1	1
Croenddu arall	1	0	0
Pacistanaidd	0	0	2
Croenwyn	135	120	93
Arall	7	1	2
Heb eu llenwi	10	24	29

Hawliadau ar Sail Anffafrio oherwydd Anabledd

Cafodd 7 hawliad ar sail anffafrio oherwydd anabledd eu gwneud eleni. Cofrestrwyd 6, cafodd 5 eu tynnu'n ôl gan yr hawlwyr, ac aeth 1 ymlaen i wrandawriad. Cafodd yr hawliad ei gefnogi.

Apeliadau i'r Uchel Lys

Ar hyn o bryd gall rhieni apelio i'r Uchel Lys pan gredant fod penderfyniad Tribiwnlys yn ddiffygiol ar sail pwynt cyfreithiol. Cofrestrwyd 3 apêl i'r Uchel Lys yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn ystod y cyfnod adrodd, yn ychwanegol at y ddwy apêl a wnaed yn y flwyddyn flaenorol. Rhoddir crynodeb o'r canlyniadau isod:

Tynnwyd hawliad yn ôl gan y sawl oedd yn apelio: 2

Gwrthodwyd yr apêl: 1

Yn disgwyl am wrandawriad: 2

Cwynion

Gwnaed 1 gwyn ffurfiol i'r Llywydd yn ystod y flwyddyn.

Ysgrifenyddiaeth

Fel bob amser, canmolaf waith caled ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys o ran darparu cefnogaeth ardderchog, amserol ac effeithiol i'r Tribiwnlys.

Gwariant - 1 Ebrill 2005 i 31 Mawrth 2006

Gwariant	2005/06 £(000oedd)
Ffioedd a threuliau'r Llywydd ac aelodau'r Tribiwnlys	131,811
Hyfforddiant y Tribiwnlys	2,269
Llety ar gyfer gwrandawiadau, hyfforddiant a grŵp defnyddwyr	68,127
Treuliau eraill yr apeliadau (hawliadau tystion, cyfieithu ac ati)	9,577
Cyflogau	146,283
Costau teithio a chynhaliaeth y Clercod/Ysgrifenyddiaeth	10,077
Hyfforddiant y staff	0.830
Treuliau swyddfa (gan gynnwys dosbarthu nwyddau)	8,627
Costau argraffu a chyfryngau	15,362
Ffioedd cyfreithiol	9,390
	402,353
(Llai'r swm a dderbyniwyd oddi wrth y DfES am waith anabled):	(39)
	£363,353

Yn ychwanegol at y gwariant uniongyrchol ceir cyfran o'r rhent a chostau cyfleustodau ar y llety a rennir gan y Tribiwnlys, cyfran o tua £20,000, a delir yn ganolog.

(Cyfanswm 2004/05) 249,732

(Cyfanswm 2003/04) 407,000

Aelodau'r Tribiwnlys

Mae'r Tribiwnlys yn cynnwys yr aelodau canlynol ac maent i gyd naill ai wedi llywyddu gwrandawiadau neu wedi eistedd arnynt yn ystod y flwyddyn 1 Medi 2005 i 31 Awst 2006:

Llywydd	Rhiannon Ellis Walker
Cadeiryddyddion	Mark Allen Jacqueline Blackmore Gwyn Davies Meleri Tudur
Aelodau Lleyg	Sandra Boyle Norman Donovan Gwyn Griffiths Kerena Marchant Gareth Roberts Siân Wyn Siencyn Susan Taylor Andrew Wilson

Ysgrifenyddiaeth y Tribiwnlys

Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn gyfrifol am weinyddu'r Tribiwnlys.

Ysgrifennydd	Huw Maguire	Ffôn. 01597 829803
Rheolwr y Tîm Apeliadau	Siân Mills	Ffôn. 01597 829804
Rheolwr Cefnogaeth y Timau	Pam Sansom	Ffôn. 01597 829802
Clercod	Vikki Slaven	Ffôn. 01597 829806
	Leon Mills	Ffôn. 01597 829805
	Rhiannon Mills	Ffôn. 01597 829809

Rydym hefyd yn gweithredu Llinell Gymorth y Tribiwnlys (01597 829800) a blwch post electronig: tribunalenquiries@wales.gsi.gov.uk